


BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG



WELSH
LANGUAGE
BOARD

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon • Annual Report and Accounts

2000 - 2001



Mae'r adroddiad
yma wedi ei sgrifennu
mewn Cymraeg Clir



Cynnwys

Rhagair	1-3
Sut gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg fy helpu i?	4-5
Teulu	6-7
Cymuned	8-11
Derbyn Gwasanaethau	12-14
Byd Gwaith	15-16
Hamdden a Gwyliau	17-19
Dwyieithrwydd a Pholisïau Cyhoeddus	20-21
Datganiad Ariannol Cryno	22-25
Atodiad 1 Cefndir	26-30
Atodiad 2 Gweithgareddau a Phrosiectau 2000-01	31-33
Atodiad 3 Asesiad o berfformiad	34
Atodiad 4 Grantiau	36
Atodiad 5 Cynlluniau Iaith Gymraeg	37-40

Contents

Foreword
How can the Welsh Language Board help me?
Family
Community
Receiving Services
The Workplace
Leisure, Festivals and Holidays
Bilingualism and Public Policies
Summary Financial Statement
Annex 1 Background
Annex 2 2000-01 Activities and Projects
Annex 3 Assessment of performance
Annex 4 Grants
Annex 5 Welsh Language Schemes

Llun - Gwener

10am - 12.30pm

1.30pm - 3.30pm

cyfradd galwadau lleol

Os oes angen gwybodaeth

o unrhyw fath am

yr Iaith Gymraeg

galwch y Llinell Gyswilt

...nodwch y rhif!

Llinell Gyswilt â'r Gymraeg

0845 6076070

Link Line to Welsh

If you've got a query

of any kind about the

Welsh Language

call the Link Line

...make a note of the number

Monday-Friday

10am - 12.30pm

1.30pm - 3.30pm

local call rate

Dylunio: Hughes Advertising & Design

Ffotograffiaeth gan: Ralph Carpenter, Nigel Hughes,

Huw John, Erfyl Lloyd Davies, Martin Roberts

Argraffu: Mid Wales Litho

Design: Hughes Advertising & Design

Photography by: Ralph Carpenter, Nigel Hughes,

Huw John, Erfyl Lloyd Davies, Martin Roberts

Print: Mid Wales Litho

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno seithfed Adroddiad Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Pwrpas yr hyn sy'n dilyn yw rhoi darlun o'n gwaith dros y cyfnod 1 Ebrill 2000 - 31 Mawrth 2001.

Dros y flwyddyn, mae'n perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi datblygu mewn sawl ffordd. Ym mis Gorffennaf 2000, yn ystod y ddadl gyflawn gyntaf yn y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg, fe bleidleisiodd yr Aelodau i gadarnhau penderfyniad cynharach y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed. Croesawodd y Cynulliad ddogfen y Bwrdd, *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005*, fel "cyfraniad pwysig i'r dasg o lunio strategaeth er mwyn sicrhau adfywiad yr iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog".

Ers hydref 2000, y Pwyllgor Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg sydd â'r prif gyfrifoldeb dros yr iaith, ac i'r Gweinidog a'r Pwyllgor yma mae'r Bwrdd bellach yn atebol. Ac mae'r Pwyllgor newydd gychwyn ar adolygiad cynhwysfawr o'r iaith Gymraeg fydd yn arwain at lunio strategaeth i gyrraedd nod y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog. Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adolygiad yn fawr; rydym eisoes wedi gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor ar gychwyn y gwaith, a byddwn wrth gwrs yn parhau i gyfrannu ato yn y dyfodol.

Fel rhan o raglen Llywodraeth y DU o gynnal adolygiadau bob pum mlynedd o'r cyrff mae'n ei noddi, bu'r asiantaeth Newidiem yn cynnal adolygiad o'r Bwrdd ar gomisiwn y Cynulliad. Mae adroddiad Newidiem ar ran gyntaf yr adolygiad wedi dod i'r casgliad:

- fod angen parhaol dros holl swyddogaethau'r Bwrdd
 - mai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny.
- Edrychwn ymlaen at gydweithio â Newidiem a'r Cynulliad ar ail ran yr adolygiad yn y flwyddyn i ddod.

Foreword

It gives us great pleasure to present the seventh Welsh Language Board Annual Report. In the following pages we aim to provide an overview of our work for the year 1 April 2000 - 31 March 2001.

Over the year, our relationship with the National Assembly for Wales has developed in several ways. In July 2000, during the first plenary debate on the Welsh language in the Assembly, Members voted to confirm an important decision made earlier in the year by the Post 16 Education and Training Committee. The Assembly welcomed the Board's strategy document *The Welsh language: A Vision and Mission for 2000-2005*, as "an important contribution to the task of forming a strategy to ensure the revitalisation of the Welsh language and the creation of a bilingual Wales".

Since the autumn of 2000, the principal responsibility for the language lies with the Culture, Sport and Welsh Language Committee, and it is to this Committee and Minister that the Board now reports. The Committee has just embarked on a comprehensive review of the Welsh language which is intended to lead to a strategy to deliver the Assembly's aim of creating a bilingual Wales. The Board warmly welcomes this review; we have already given a presentation to the Committee at the outset, and we will of course continue to contribute as the review progresses.

Meanwhile, as part of the Government's programme of quinquennial reviews of the bodies it sponsors, the agency Newidiem has been conducting a review of the Board, commissioned by the Assembly. Newidiem's report on the first part of this review concluded:

- that there is a permanent need for all the Board's functions
- that the present organisational framework is the most effective way of fulfilling these functions.

We look forward to working with Newidiem and the Assembly on the second part of the review during the year to come.



Mae'r Cynulliad ei hunan wedi ymrwymo i nifer o dargedau pwysig yn ymwneud â sefydlogi'r iaith, ac â chynnal twf yn y nifer sy'n ei siarad. Mae'r rhain i'w gweld yng nghynllun strategol y Cynulliad, gwelcymru.com

The Assembly itself has made a commitment to several key targets relating to the stabilisation of the language, and to maintaining the growth in the number of speakers. These targets are to be found in the Assembly's strategic plan, betterwales.com

Y brif her y mae'r Bwrdd wedi ei rhoi i'r Cynulliad yw y dylai drin dwyieithrwydd yn lloerweddol, ar draws pob maes polisi, pob pwyllgor pwnc a phob adran. Dylai'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg gael ei chynnwys yn ganolog ganddo ar ei agenda cyfartaledd.

Dros y flwyddyn a aeth heibio, mae'r Bwrdd ei hun wedi cynnig cyngor a thystiolaeth ar draws sawl maes i nifer o wahanol bwyllgorau ac adrannau o'r Cynulliad - yn cynnwys y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r manylion ar dudalen 20.

Hoffem gyfeirio yma hefyd at ddatblygiadau cyffrous y tu hwnt i Gymru y buom yn rhan ohonyn nhw y llynedd. Braf oedd croesawu Éamonn Ó Cuív (Gweinidog dros Gelfyddydau, Treftadaeth, y Gaeltacht a'r Ynysoedd) i Gymru a rhannu syniadau ynglŷn â'r Ddeddf Iaith arfaethedig ar gyfer yr iaith Wyddeleg. Daeth Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad a Jordi Pujol, Arlywydd Llywodraeth Catalwnia at ei gilydd yng Nghaerdydd i arwyddo cytundeb i gydweithredu mewn sawl maes.

Ar 27 Mawrth 2001, ychydig dros flwyddyn ar ôl ei arwyddo yn Strasbourg, cadarnhaodd Llywodraeth y DU yn ffurfiol y Siatr Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol. Mae hyn yn arwyddocaol, gan ei fod yn cadarnhau ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU i ddiogelu a chynnal ieithoedd brodorol fel rhan hanfodol o'n treftadaeth ddiwylliannol. Mae cadarnhau'r Siatr yn gosod dyletswydd ar y Llywodraeth i gyflwyno'n rheolaidd i Gyngor Ewrop adroddiad ffurfiol ar ei pholisiau i weithredu'r Siatr.

Mae datblygiadau eraill cyffrous yn dangos fod yr iaith Gymraeg yn prysur ennill ei phlwyf ar lwyfan rhyngwladol, ac ym myd busnes. Er enghraifft, cyhoeddodd Microsoft fis Mai 2000 y byddai adnoddau iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhecyn Microsoft Office 2002. Gwelsom un o gewri eraill masnach rhyngwladol, neb llai na Coca Cola, yn defnyddio'r iaith Gymraeg am y tro cyntaf mewn ymgyrch hysbysebu.

The major challenge which the Board has set the Assembly is that it should treat bilingualism as a cross-cutting issue, across all policy areas, all subject committees and all departments. The principle of ensuring equality of opportunity to use Welsh and English should be incorporated into its central equal opportunities agenda.

Over the year, the Board has offered advice and evidence to a number of different Assembly committees and departments - including the Equality of Opportunity Committee and the Education and Lifelong Learning Committee. Details are shown on page 20.

We should like to refer here to exciting developments outside Wales of which we were a part last year. It was good to welcome Éamonn Ó Cuív (Minister for the Arts, Heritage, the Gaeltacht and the Islands) to Wales to exchange ideas regarding the proposed Irish Language Act. Rhodri Morgan, the Assembly's First Minister, and Jordi Pujol, President of the Catalonian Government, met in Cardiff to sign a concordat to work together in a number of areas.

On 27 March 2001, a little over a year after it was signed in Strasbourg, the UK Government formally ratified the European Charter for Regional or Minority Languages. This is significant, since it confirms the UK Government's continuing commitment to safeguard and support indigenous languages as a fundamental part of our cultural heritage. Ratification of the Charter places a duty on the Government to present to the Council of Europe on a regular basis a formal report on its policies to implement the Charter.

Other exciting developments have illustrated the extent to which the Welsh language has penetrated the international stage in the private sector. For example, Microsoft announced in May 2000 that Welsh language resources would be included in the Microsoft Office 2002 software package. We also saw one of the other giants of international trade, Coca Cola no less, using the Welsh language for the first time in an advertising campaign.



Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad a Jordi Pujol Arlywydd Catalwnia yn Nghaerdydd

Rhodri Morgan, First Minister for the Assembly and Jordi Pujol President of Catalonia in Cardiff



Mae pob un o adroddiadau blynyddol y Bwrdd wedi talu teyrnged i'r partneriaethau gweithredol yr ydym wedi eu sefydlu ar draws ein holl feysydd gwaith. Nid oes modd i ni ddatblygu'r blaenoriaethau yn *Cenhadaeth a Gweledigaeth* hebddyn nhw. Yn enwedig, mae'r rhwydwaith o fentrau iaith yn cynnig, fe gredwn, ffordd o weithredu egwyddorion cynllunio ieithyddol yn ymarferol ar lawr gwlad. Yn ôl yr adroddiad a gomisiynodd y Bwrdd gan Gwmni Iaith Cyf, *Mentro Ymlaen*, "mae'r cysyniad o fenter iaith yn ddatblygiad i'w groesawu ac yn un sydd â photensial sylweddol i weithredu cynllunio iaith yn y gymuned yng Nghymru". Adeiladu ar y potensial yma, a chryfhau'r bartneriaeth rhyngom, fydd un o'n prif flaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf. Rydym yn ddiolchgar i'r Cynulliad am rannu'r awydd i ddatblygu'r elfen bwysig hon o'n gwaith a chytuno i neilltuo cyllid ychwanegol i'r gwaith yma o fewn ein cymunedau.

Eleni rydym wedi bod yn adolygu strwythurau gweinyddol y Bwrdd i sicrhau ein bod yn gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol o fewn ein hadnoddau. Hoffem ddiolch i'r aelodau am gyfrannu yn sylweddol i'r broses drwy rannu o'u profiad a'u harbenigedd mewn sawl maes. Diolch i holl staff y Bwrdd am y brwdfrydedd y maen nhw wedi ei ddangos wrth ystyried y newidiadau yma. Diolch iddyn nhw hefyd am y swmp aruthrol o waith graenus a blaengar sydd wedi ei gyflawni ganddyn nhw yn ystod y flwyddyn - mae tudalennau'r adroddiad yma'n dystiolaeth glir o hynny. Gobeithio byddwch yn cael blas ar ei ddarllen!

Each one of the Board's annual reports has paid tribute to the partnerships we have established across all our areas of work. It would not be possible for us to implement the priorities in *A Vision and Mission* without them. The network of mentrau iaith (language initiatives) offers, in our opinion, a way to implement the principles of language planning effectively and practically at community level. According to the report *Mentro Ymlaen*, commissioned by the Board from Cwmni Iaith Cyf, "the concept of a menter iaith is a development to be welcomed and one which has significant potential to implement language planning in the community in Wales". One of our main priorities over the year to come will be to build on this potential, and to strengthen the partnership between us. We are grateful to the Assembly for sharing our wish to develop this important element of our work and for agreeing to earmark additional funds towards this work in communities.

This year we have been reviewing the Board's administrative structure in order to ensure that we are operating in the most effective way within our resources. We would like to thank the members for their significant contribution to this process by sharing their experience and expertise in several areas. We would like to thank all the Board's staff for the enthusiasm they have shown in considering these changes. We thank them also for the phenomenal amount of work of high quality and creativity they have achieved during the year - the pages of this report bear witness to that. We hope you enjoy reading it!



Rhodri Williams

Rhodri Williams
Cadeirydd
Ebrill 2001
Chairman
April 2001



John Walter Jones

John Walter Jones
Prif Weithredwr
Ebrill 2001
Chief Executive
April 2001



Aelodau'r Bwrdd
Board members

Sut gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg fy helpu i?

How can the Welsh Language Board help me?

Mae'r darlun yma'n dangos sut mae rhai o brif weithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn wedi cyffwrdd ag agweddau o fywydau pobl yng Nghymru

This diagram shows how some of the Welsh Language Board's main activities during the year have affected aspects of the everyday lives of people in Wales

Teulu

Cynllun trosglwyddo iaith yn y teulu
Ariannu Mudiad Ysgolion Meithrin,
mentrau iaith, yr Urdd
Grantiau i addysg Gymraeg
Marchnata manteision addysg ddwyieithog
Cynlluniau Addysg Gymraeg

Family

Language transmission in the family
Funding Mudiad Ysgolion Meithrin
mentrau iaith, the Urdd
Grants for Welsh language education
Marketing the advantages of bilingual education
Welsh Education Schemes

BWRDD
YR IAITH
GYMRAEG



WELSH
LANGUAGE
BOARD

Derbyn gwasanaethau

Cynlluniau iaith sector cyhoeddus
- cyngorau lleol, iechyd, heddlu ayyb
Partneriaethau sector preifat
Marchnata gwasanaethau Cymraeg
Iaith Gwaith

Receiving services

Public sector language schemes
-local authorities, health, police etc
Private sector partnerships
Marketing Welsh language services
Iaith Gwaith/Working Welsh

Hamdden a gwyliau

Cymraeg i Oedolion
Iaith a busnesau arlwyyo
Ariannu cyhoeddi - Cyngor Llyfrau
Eisteddfod Genedlaethol
Gweithgareddau ieuencid

Leisure, festivals & holidays

Welsh for Adults
Language & the hospitality industry
Funding publishing - Books Council
National Eisteddfod
Youth activities

Cymuned

Ariannu mentrau iaith a gweithgareddau eraill
Cynlluniau iaith mudiadau gwirfoddol
Arolygon barn y cyhoedd
Cyfarfodydd agored/cyhoeddus
Safle gwe
Prosiectau ardal

Community

Funding mentrau iaith and other activities
Voluntary organisation language schemes
Public opinion surveys
Open/public meetings
Website
Area projects

Byd gwaith

Cymraeg yn y gweithle
Marchnata manteision sgiliau dwyieithog
Llinell Gyswilt â'r Gymraeg
Gwobrau Dylunio Dwyieithog
CySill

Workplace

Welsh in the workplace
Marketing the advantages of bilingual skills
LinkLine to Welsh
Bilingual Design Awards
CySill

Y Cynulliad a'r Llywodraeth

Cynghori'r Cynulliad ac eraill
Yr iaith a pholisiau cyhoeddus
Amcan 1 a'r Gymraeg

The Assembly and the Government

Advising the Assembly and others
The language and public policy
Objective 1 and the language



Kathryn Thomas a thim Mentrau Iaith Myrddin yn cyflwyno deunyddiau trosglwyddo iaith i Chris Withey, bydwraig yn Cross Hands

Kathryn Thomas and the Mentrau Iaith Myrddin team presenting language transmission information to Chris Withey, a midwife in Cross Hands



Teulu

Magu plant yn ddwyieithog

Un o brif flaenoriaethau marchnata'r Bwrdd yw ceisio perswadio rhieni sy'n siarad Cymraeg o bwysigrwydd defnyddio'r iaith gyda'u plant. Ers bron i bedair blynedd, mae taflenni ar fanteision dwyieithrwydd cynnar i blant wedi eu cynnwys mewn pecynnau 'Bounty'. Pecynnau yw'r rhain y bydd mamau sy'n rhoi genedigaeth mewn ysbytai yng Nghymru - tua 31,000 bob blwyddyn - yn eu derbyn.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd prosiect peilot gyda bydwraedd ac ymwelwyr iechyd Sir Gaerfyrddin ei ymestyn i siroedd Dinbych a Chonwy, eto ar y cyd â'r mentrau iaith. Rydym wedi datblygu deunyddiau pwrpasol i alluogi'r gweithwyr proffesiynol yma i drafod dewis iaith y cartref gyda rhieni. Cafodd Adran Addysg Coleg y Drindod Caerfyrddin ei gomisiynu i baratoi adroddiad gwerthusol ar y gwaith yn Sir Gaerfyrddin. Dangosodd "fod polisi Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael yr effaith a ddymunir ar famau, drwy ddwyn perswad ar ganran fesuradwy ohonyn nhw i ystyried magu eu plant yn ddwyieithog".

Mae hyn yn rhoi sail cadarn i ni i ymestyn y gwaith, ac fe fuom yn ffodus i ddenu cyllid ychwanegol dros 3 blynedd gan y Cynulliad. Byddwn felly'n ehangu'r ymgyrch hollbwysig hon i weddill Cymru.

Mudiad Ysgolion Meithrin

Cynyddodd grant blynyddol y Bwrdd i'r partner pwysig yma i £638,141 yn 2000-01. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ar lunio strategaeth newydd i'r Mudiad.

Addysg Gymraeg

Cafodd £2,118,000 ei ddyrannu gan y Bwrdd yn ystod 2000-01 mewn grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg yn benodol. Cafodd £2,182,500 ei gynnig ar gyfer 2001-02. Caiff y grantiau yma eu rhannu i'r awdurdodau lleol o dan bedwar pennawd sef:

Family

Raising children bilingually

One of the Board's main marketing priorities is to try and persuade Welsh speaking parents of the importance of using the language with their children. For almost four years, leaflets on the benefits of early bilingualism for children have been included in 'Bounty' packs. These are distributed to around 31,000 mothers who give birth in hospitals in Wales.

During the year, the pilot project with midwives and health visitors in Carmarthenshire was extended to Denbighshire and the county of Conwy. This, again, was done in conjunction with the mentrau iaith. We have developed specialised materials to allow the professional workers to discuss language choice with parents. The Education Department at Trinity College Carmarthen was commissioned to prepare an evaluative report on the work in Carmarthenshire. This showed that the "WLB policy is having the desired effect on mothers, by persuading a measurable percentage to consider raising their children bilingually."

This gives us a strong base from which to expand the work, and we were fortunate to attract additional funding over 3 years from the Assembly. This will allow us to develop and expand this vital campaign throughout Wales.

Mudiad Ysgolion Meithrin

The Board's annual grant to this important partner organisation increased to £638,141 in 2000-01, and we continue to work closely with them to develop a new strategy for the association.

Welsh medium education

£2,118,000 was distributed in grants by the Board to promote Welsh medium education in 2000/01, and £2,182,500 was offered for 2001-02. These grants are distributed to local authorities under four headings:

- y gwasanaeth athrawon bro ar gyfer y sector ail iaith ac iaith gyntaf
- canolfannau i hwyrddyfodiad
- cyrsiau preswyl
- prosiectau peilot.

Yn ogystal, mae pob awdurdod addysg lleol un ai wedi cytuno cynllun addysg Gymraeg gyda'r Bwrdd neu wedi cael hysbysiad i lunio cynllun. Erbyn hyn, rydym wedi cymeradwyo 15 cynllun (manyllion yn Atodiad 5). Mae targedau ynddyn nhw ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd y cyfnod ysgol. Mae adran ymhob un sy'n delio ag anghenion arbennig.

Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) - adnabod arferion da

Derbyniodd y Cynulliad ein cais i gynnal prosiect ymchwil cenedlaethol sy'n dadansoddi'r ddarpariaeth anghenion arbennig cyfrwng Cymraeg. Huw Roberts o'r ysgol Addysg ym Mhrifysgol Cymru Bangor sy'n gyfrifol am y prosiect. Un amcan pwysig fydd darganfod a rhannu arferion da o ran y ddarpariaeth. Caiff adroddiad y prosiect ei gyflwyno i'r Cynulliad fis Gorffennaf 2001.

Urdd Gobaith Cymru

Cynyddodd grant y Bwrdd i'r Urdd i £311,911 ar gyfer 2000-01. Mae'r arian yma yn cyfrannu tuag at gostau cynnal gweithgareddau ieuencid ar draws Cymru, Eisteddfod yr Urdd, cylchgronau ac ymestyn y ddarpariaeth bresennol i bobl ifanc rhwng 16 a 25.

Ysgol Gymraeg Llundain

Yn ystod haf 2000, bu raid i'r ysgol adael yr adeilad a fu'n gartref iddi ers dros 40 mlynedd. Yn dilyn cais gan yr ysgol, cynigodd y Cynulliad £10,000 i'r Bwrdd i'w gynnig i'r ysgol ar gyfer 2000-01. Yn ogystal, rhoddwyd swm o £25,000 yng nghyllideb y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn 2001-02 i'w roi fel grant i'r ysgol, o dderbyn cais boddhaol. Mae'n braf gallu nodi fod y Bwrdd wedi cytuno yn ei gyfarfod ym Mawrth 2001 i gynnig y grant hwnnw'n llawn i'r ysgol.

- the 'athrawon bro' service for the first language and second language sector
- late starters' centres
- residential courses
- pilot projects.

Also, all local education authorities have either agreed a Welsh medium education scheme with the Board, or have been notified that they need to develop a scheme. We have approved 15 schemes (details in Annex 5). These include targets for developing bilingual and Welsh medium education from the early years until the end of the school period. Each scheme includes a section dealing with special needs.

Special Educational Needs (SEN) - recognising good practice

The Assembly accepted our request to undertake a national research project analysing Welsh medium special needs provision in Wales. Huw Roberts from the Education Department at the University of Wales Bangor is responsible for the project. One important aim will be to recognise and share good practice in provision. The project report will be presented to the Assembly in July 2001.


Urdd Gobaith Cymru

The Board's grant to the Urdd increased to £311,911 in 2000-01. This grant goes towards the cost of arranging youth activities throughout Wales, the Urdd Eisteddfod, its magazines and extending the present provision for young people between the ages of 16 and 25.

London Welsh School

During Summer 2000, the school had to vacate the building which had been its home for over 40 years. Following an appeal from the school, the Assembly gave the Board £10,000 to offer to the school for 2000-01. The sum of £25,000 was also included in the Board's budget for 2001-02 to be given as a grant to the school following a satisfactory application. We are pleased to note that the Board agreed to offer this sum in full to the school at its meeting in March 2001.





Cymuned

Cynllunio ieithyddol ar waith

Yn ystod blwyddyn ariannol 2000-01, rhoddodd y Bwrdd grantiau gwerth £2,558,000 o dan ei brif gynllun grantiau, ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Derbyniodd 31 o gyrff, yn amrywio o Fudiad Ysgolion Meithrin i Gymdeithas Alzheimer, yn ogystal â 51 o bapurau bro, gefnogaeth o dan y cynllun hwn.

Ar gyfer 2001-02, mae'r Bwrdd wedi cynnig cyfanswm o £2,884,000 i 33 o sefydliadau a 52 papur bro, sef cynnydd o 13% ar grantiau 2000-01.

Bwriad y Bwrdd yw mapio gwariant ar gyfer 2002 a thu hwnt yn agosach at y blaenoriaethau sydd wedi eu nodi gennym yn ein dogfen *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005* (gw. Atodiad 1). Bydd gwahoddiad ceisiadau grant 2002-03 yn adlewyrchu hyn.

Yn ogystal, cynigodd y Bwrdd £12,000 o dan y Cynllun Grantiau Bach i ysgogi sefydliadau sector preifat a gwirfoddol i gynhyrchu deunyddiau marchnata yn ddwyieithog. Mae hyn yn ffordd effeithiol o annog busnesau bach mewn cymunedau lleol i ddatblygu eu dwyieithrwydd.

Mae manylion dyraniad yr holl grantiau yn Atodiad 4.

Mentrau iaith - yng ngwreiddiau'r gymuned

Cynyddodd y grantiau i'r rhwydwaith mentrau iaith yn ystod y flwyddyn, i gyfanswm o £432,000. Dyma'n prif bartneriaid yn y gwaith o ddatblygu'r defnydd o'r iaith yng nghymunedau Cymru.

Bu'r Bwrdd hefyd yn parhau i gefnogi'r mentrau mewn ffyrdd ymarferol eraill, gan gynnwys

- trefnu seminar ar farchnata yn Llandrindod ym mis Ebrill 2000
- cyd-ariannu standin arddangos Mentrau Iaith Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol
- datblygu safle gwe www.mentrau-iaith.com - mae 10 menter bellach yn rhan o'r safle, gyda'r gweddill i ddilyn yn 2001-02.

Community

Language planning in action

During the 2000-01 financial year, the Board distributed grants of £2,558,000 under its main grants scheme, to promote and facilitate the use of Welsh. 31 organisations, from Mudiad Ysgolion Meithrin to the Alzheimer's Society, as well as 51 papurau bro (Welsh language community newspapers) received financial support under this scheme.

In 2001-02, the Board has offered £2,884,000 to 33 organisations and 52 papurau bro, an increase of 13% on the 2000-01 grants.

From 2002, the Board will map its spending in line with the priorities included in the document, *The Welsh Language: A Vision and Mission for 2000-2005* (see Annex 1). The invitation to apply for grants in 2002-03 will reflect this.

The Board also offered £12,000 under its Small Grants Scheme to encourage private and voluntary sector organisations to produce bilingual marketing materials. This is an effective way of encouraging small businesses in local communities to develop their use of both languages.

Details of all grant allocations are included in Annex 4.

Mentrau iaith - at the heart of the community

The grant allocation to the network of mentrau iaith (language initiatives) increased to a total of £432,000 during the year. These are our main partners in developing the use of Welsh in local communities.

The Board also continued to support the mentrau iaith in other practical ways, including:

- organising a marketing seminar in Llandrindod in April 2000
- jointly funding the Mentrau Iaith Cymru promotional stand at the National Eisteddfod
- developing the www.mentrau-iaith.com website - 10 mentrau are currently part of the site, with the rest to follow in 2001-02.

Barn y bobl ar yr iaith

Comisiynodd y Bwrdd gwmni Ymchwil Beaufort o Gaerdydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru ar ddechrau'r mileniwm newydd, er mwyn asesu:

- agweddau pobl yng Nghymru tuag at yr iaith;
- lefel defnydd siaradwyr Cymraeg o'r iaith;
- eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn nifer o sefyllfaoedd;
- potensial y galw am ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb - gyda 1,200 o bobl, yn cynnwys 500 o siaradwyr Cymraeg - yn ystod Mawrth 2000. Cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Cadarnhaodd prif gasgliadau'r arolwg yr argraff gref mae'r Bwrdd wedi ei chael dros y blynyddoedd diwethaf fod cefnogaeth eang i'r iaith, ymysg siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd.

Yn dilyn cyhoeddi'r canlyniadau, rydym wedi datblygu deunyddiau hyrwyddo i ledaenu'r "Newyddion Da" am yr iaith, ar gyfer ein partneriaid ymhob maes.

Cadw Mewn Cysylltiad

Mae'r Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd deufisol yn agored ers 1997, ac yn teithio ledled Cymru er mwyn rhoi cyfle i bobl o bob ardal fynychu cyfarfodydd. Mae manylion cyfarfodydd 2000-01 i'w gweld yn Atodiad 1.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd yma, bu'r Cadeirydd yn y Dafarn Sinc ger Maenclochog (Sir Benfro), yn Llanfair Caereinion (Powys), yn Rhuthun, ym Mhwillheli ac yn Llanbedrog (Gwynedd), yn trafod strategaeth y Bwrdd mewn cyfarfodydd cyhoeddus mwy anffurfiol.

Safle Gwe

Rydym yn parhau i ddatblygu safle'r Bwrdd ar y we (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk) yn gyson. Yn ddiweddar, rydym wedi ychwanegu adran wedi ei seilio ar waith y Llinell Gyswllt â'r Gymraeg (Gwebodi@ith), ac ehangu'r adran Cymraeg i Oedolion. Erbyn hyn,

What the People think

The Board commissioned Beaufort Research from Cardiff to undertake a survey on the state of the Welsh language at the beginning of the new millennium, to assess:

- the attitudes of people in Wales towards the language
- the level of use of the language by Welsh speakers
- their confidence to use the language in a number of situations
- the potential demand for additional opportunities to use the language

Interviews were held face to face with 1,200 people, including 500 Welsh speakers, during March 2000. The results were published in July.

The main findings of the survey confirmed the Board's strong impression over recent years, that there is widespread support for the language, amongst both Welsh speakers and non-Welsh speakers.

Following the publication of the results, we have developed marketing materials to promote the "Good News" about the language for our partners in all sectors.

Keeping in Touch

The Board has been holding its bi-monthly meetings in public since 1997, and continues to travel across Wales, to give people from all areas an opportunity to attend meetings. Details of 2000-01 meetings are listed in Annex 1.

The Chairman also attended less formal public meetings in the Tafarn Sinc near Maenclochog (Pembrokeshire), in Llanfair Caereinion (Powys), in Ruthin, in Pwllheli and in Llanbedrog (Gwynedd), to discuss the Board's strategy with local interested parties.

Website

We continue to develop the Board's website (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk) regularly. We have recently added a new section based on the LinkLine to Welsh (Infol@ng) and have also expanded the Welsh for Adults section. The site attracts over 200,000 hits per month, from all areas of the world. We actively encourage people to contact us

Yn ôl arolwg 2000, roedd:

- 94% yn credu fod dyfodol i'r Gymraeg fel iaith fyw
- 85% yn credu fod yr iaith yn rhywbeth y gall pawb yng Nghymru fod yn falch ohoni
- 82% yn credu ei bod hi'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn dysgu siarad yr iaith

According to the 2000 survey:

- 94% of those questioned believe that Welsh has a future as a living language
- 85% of those questioned believe that the language is something everyone in Wales can be proud of
- 82% of those questioned believe that it is important for children and young people to learn to speak the language.



Yr Arglwydd Elis-Thomas, Llywydd y Cynulliad a Chyn-Gadeirydd y Bwrdd, yn croesawu'r Cadeirydd presennol i Ddolgellau ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd, Mai 2001.

Lord Elis-Thomas, the Assembly's Presiding Officer and former Chairman of the Board, welcoming the present Chairman to Dolgellau for the Board's open meeting in May 2001.





Cyflwyno tystysgrifau cymeradwyaeth cynlluniau iaith i'r Groes Goch Brydeinig a BTCV.

Presenting language scheme approval certificates to the British Red Cross and BTCV.



mae'r safle'n denu dros 200,000 o drawiadau (*hits*) bob mis, o bob cwr o'r byd. Byddwn yn annog pobl i gysylltu â ni drwy gyfrwng y we, ac yn gwahodd eu hymateb i'n cynlluniau a chyhoeddiadau yn gyson.

Cylchredeg Newyddion

Mae pedwar rhifyn o'r cylchlythyr *Bwletin* wedi ymddangos bellach, er mwyn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am ein gweithgareddau. Rydym yn parhau i ryddhau datganiadau rheolaidd i'r wasg a'r cyfryngau - dros 60 yn ystod 2000-01.

Mudiadau Gwirfoddol

Mae'n cydweithrediad â'n partneriaid yn y sector gwirfoddol yn parhau ac mae'n galonogol gweld y cynnydd yn nifer y mudiadau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol sy'n datblygu gweithgaredd a gwasanaeth Cymraeg. Erbyn hyn, mae dros 30 o fudiadau gwirfoddol wedi ffurfioli hynny mewn polisi neu gynllun iaith, a cheir rhestr ohonyn nhw yn Atodiad 4. Mae nifer fawr o fudiadau a chymdeithasau lleol eraill wedi bwrw mlaen yn anffurfiol, gydag anogaeth a chefnogaeth y mentrau iaith.

Buom yn parhau i gydweithio â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Buom yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu'r cydweithrediad rhwng y mentrau iaith a'r Cynghorau Gwirfoddol sirol. Mae hyn yn allweddol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog yn effeithiol ar lawr gwlad.

Prosiect Abergwaun

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu partneriaeth gydag Adran Addysg Cyngor Sir Penfro, Mudiad Ysgolion Meithrin, yr ysgolion cynradd, Ysgol Uwchradd Abergwaun, yr Adran Dysgu Gydol Oes a Menter Iaith Sir Benfro, er mwyn llunio strategaeth i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal hon. Dros y flwyddyn i ddod, y bwriad yw cynyddu cyfleoedd plant a'u rhieni i sefydlu a chynnal eu cyswllt â'r iaith.

via the website and invite them to respond to our plans and publications regularly.

Circulating Information

Four editions of the newsletter *Bwletin* have been produced so far, to enable us to circulate news to interested parties regularly about our activities. We continue to distribute press and media releases regularly - over 60 in 2000-01.

Voluntary Organisations

Our work with partners in the voluntary sector continues, and it is heartening to see an increase in the number of local, regional and national organisations developing Welsh language activities and services. Over 30 voluntary organisations have formalised their approach in a policy or language scheme, and a list is included in Annex 4. Many local organisations and associations have moved forward informally with the support and encouragement of the mentrau iaith.

We have continued to work with the Wales Council for Voluntary Action, looking at how we can improve co-operation between the mentrau iaith and the county based Voluntary Councils. This is vitally important to develop bilingual provision at grassroots level.

The Fishguard Project

The Board has developed a partnership with Pembrokeshire County Council's Education Department, Mudiad Ysgolion Meithrin, primary schools, Fishguard Secondary School, the Lifelong Learning Centre and Menter Iaith Sir Benfro, to develop a strategy to strengthen the language in this area. The aim over the coming year is to increase opportunities for children and parents to establish and develop their link with the language.

Cysylltiadau Tramor

Cafodd y Bwrdd wahoddiadau i gyfrannu i nifer o gynadleddau a seminarau rhyngwladol ar agweddau o ddwyieithrwydd a ieithoedd lleiafrifol - yn yr UDA, yr Almaen, yr Eidal, Ffindir, Catalwnia, Gwlad y Basg, Iwerddon a'r Alban. Daeth ymwelwyr o Iwerddon, Gwlad y Basg, Catalwnia a Belarws atom yn ystod y flwyddyn, yn awyddus i rannu profiadau a dysgu o'r arbenigedd sydd gennym yng Nghymru ar ddwyieithrwydd.

Overseas Connections

The Board received a number of invitations to contribute to international conferences and seminars on aspects of bilingualism and minority languages - in the USA, Germany, Italy, Finland, Catalonia, the Basque Country, Ireland and Scotland. We welcomed visitors from Ireland, the Basque Country, Catalonia and Belarus during the year, eager to share experiences and learn from the expertise we have in Wales on bilingualism.



John Walter Jones (Prif Weithredwr), gyda Miren Mateo Aierza ac Amaia Agirre Pinedo o Adran Ddiwylliant Llywodraeth Gwlad y Basg yn Sbaen, ar ymweliad â'r Bwrdd.

John Walter Jones (Chief Executive), with Miren Mateo Aierza and Amaia Agirre Pinedo of the Spanish Basque Government Culture Department on their visit to the Board.



Iddon Edwards, swyddog iaith a chymuned Menter Iaith Gwynedd, yn cyflwyno pecyn gwybodaeth newydd i Maureen Edwards, perchennog gwesty Mynydd Ednyfed

Iddon Edwards, Menter Iaith Gwynedd's language and community officer, presenting a new information pack to Maureen Edwards, proprietor of the Mynydd Ednyfed hotel.





Derbyn Gwasanaethau

Datblygu darpariaeth ddwyieithog

Gwaith statudol y Bwrdd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw goruchwyllo paratoi a gweithrediad cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus. Pwrpas y cynlluniau hyn yw gofalu bod cyrff o bob math yn darparu gwasanaeth safonol yn Gymraeg ac yn trin y ddwy iaith yn gyfartal yn eu gweithgareddau. Ers 1995, mae cyfanswm o 157 cynllun iaith statudol wedi eu cymeradwyo. Mae rhestr lawn yn Atodiad 5.

Cymeradwyodd y Bwrdd 23 cynllun iaith a 4 cynllun addysg yn ystod 2000-01.

Cymeradwywyd cynlluniau iaith chwech o golegau, ac mae eraill yn cwblhau eu cynllun. Bydd gweithredu'r rhain yn arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfleoedd addysg ôl-16 yn Gymraeg ar draws y meysydd pwnc. Bydd cynlluniau y Gwasanaeth Llys a'r Ynadon yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer paratoi a chynnal achos yn parhau hawl statudol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawriad llys. Ac mae Arolwg Ordnans wrthi'n rhoi'r Gymraeg yn ôl ar fapiau wrth i gyfresi mapiau gael eu diweddarau.

Yn ogystal â'r cynnydd amlwg mewn gwasanaethau Cymraeg a ddaw yn sgil cynlluniau iaith, maen nhw'n gallu cael dylanwad anuniongyrchol ar ddatblygu darpariaeth gan gyrrff eraill. Er enghraifft, drwy gynlluniau Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, mae gofyn i baw sy'n gwneud cais am grant i ddangos sut y bydd dwyieithrwydd y gymuned yn cael ei adlewyrchu yn y gweithgareddau sy'n derbyn grant. Yr un math o ddylanwad sy'n rhoi'r Gymraeg ar dacsis, bysiau ac amserlenni trenau.

Ac mae rôl ddylanwadol bwysig gan gyrrff goruchwyllo fel y Comisiwn Archwilio a'r Comisiwn Gwella Iechyd. Maen nhw'n gosod disgwyliadau ansawdd gwasanaeth, ac yn mesur darpariaeth yn erbyn hynny. Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn rhan o hynny, a'n nod yw sicrhau eu bod yn gweithredu'r ddyletswydd honno. Mae

Receiving Services

Developing bilingual provision

The Board's statutory work under the Welsh Language Act 1993 involves overseeing the preparation and implementation of public bodies' language schemes. These schemes are intended to ensure that organisations of all kinds provide quality services in Welsh and treat the two languages equally in their activities. Since 1995, a total of 157 statutory language schemes have been approved. A complete list is shown in Annex 5.

During 2000-01, we approved 23 language schemes and 4 education schemes.

Six college language schemes were approved, and others are completing theirs. Implementation of these will lead to a significant increase in Welsh-medium post-16 education opportunities across the different subject areas. The schemes of the Court Service and Magistrates will ensure that arrangements for preparing and hearing cases respect the statutory right to use the Welsh language in court hearings. And Ordnance Survey is now reintroducing the Welsh language onto its maps as various series are updated.

In addition to the obvious increase in Welsh language services that arise from such schemes, they can also have an indirect influence on developing provision by other bodies. For example, through the schemes of the National Lottery Charities Board, the Arts Council of Wales and the Sports Council of Wales, grant applicants are obliged to show how bilingualism in the community will be reflected in the activities which are grant aided. It is a similar influence that puts the Welsh language on taxis, buses and train timetables.

And supervisory bodies like the Audit Commission and the Commission for Health Improvement have an important role. They set standards for quality of service, and measure the provision against these. Welsh language provision is a part of this, and our aim is to ensure they



cyrff o'r fath yn bartneriaid pwysig i'r Bwrdd.

Pa mor effeithiol yw cynlluniau?

Eleni rydym wedi parhau i gynyddu'r pwyslais ar y gwaith o fonitro pa mor effeithiol yw cynlluniau iaith. Serch hynny, mae prinder adnoddau wedi ein rhwystro rhag symud ymlaen gyda'r gwaith pwysig yma i'r graddau y buasem wedi ei ddymunio.

Pwrpas monitro yw darganfod a yw gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn cael eu cynnig. Mae'r dulliau'n cynnwys:

- derbyn a gwerthuso adroddiad blynyddol
- cynnal ciparolygon annibynnol
- dilyn unrhyw gŵynion
- comisiynu adroddiadau ar agweddau penodol fel bo angen.

Yn ystod 2000-01, cawsom 81 o adroddiadau blynyddol. Rydym hefyd wedi derbyn 11 adroddiad monitro cynlluniau addysg. Mae manylion i'w cael yn Atodiad 5.

Derbyniodd y Bwrdd 274 o gŵynion yn ymwneud â diffyg gweithredu cynlluniau iaith statudol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Roedd hyn yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Y nod yw datrys cwynion trwy drafod. Mewn rhai achosion, rhaid cynnal Ymchwiliad ffurfiol, a dyna fu'r hanes gydag agweddau o waith y Cynulliad a chynghorau Caerfyrddin a Chonwy yn ystod y flwyddyn.

Ymgyrch farchnata Mae Dewis ar Gael.

Nod yr ymgyrch hon yw:

- codi proffil y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael;
- annog darparwyr i ddangos yn glir lle mae'r gwasanaethau yma i'w cael;
- annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau.

Mae taflenni a phosteri ar ddelwedd ffres a chyfoes wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu'n eang yn y cyfnod Ionawr-Ebrill 2001, ynghyd â chyfres o hysbysebion yn y wasg. Bwriad y rhain yw tynnu sylw at yr ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig llinellau cymorth.

exercise that duty. Bodies of this kind are important partners for the Board.

How effective are the schemes?

This year, we have continued to increase our emphasis on monitoring the effectiveness of language schemes. However, lack of resources has prevented us from moving forward with this important work to the extent that we would have wished.

The aim of monitoring is to discover whether Welsh language services are available and are being offered.

Methods include:

- receiving and evaluating an annual report
- conducting independent snapshot surveys
- following up complaints
- commissioning reports on specific aspects as required.

During 2000-01, we received 81 annual reports. We have also received 11 education scheme monitoring reports. Details are given in Annex 5.

The Board received 274 complaints relating to failures to implement statutory language schemes in the year under review. This was similar to previous years. The aim is to settle complaints through discussion. In some cases, a formal Investigation is needed, and this was the case during the year with some aspects of the work of the Assembly and Carmarthen and Conwy councils.

The Choice is Yours Marketing Campaign

The aim of this campaign is to:

- raise the profile of the Welsh language services available;
- encourage service providers to show clearly where these services can be found;
- encourage Welsh speakers to use the services.

Rebranded leaflets and posters were produced and distributed widely during the period January-April 2001, along with a series of press advertisements. These are intended to draw attention to the range of Welsh language services available, especially telephone helplines.



Judith Aveson, enillydd cystadleuaeth adduned blwyddyn newydd y Bwrdd i ddefnyddio Cymraeg mewn sefyllfaoedd newydd, gyda gweddill ei dosbarth Cymraeg yn Aberystwyth. Mae Judith yn bwriadu siarad Cymraeg gyda'i mochyn cwta! Judith Aveson, winner of the Board's new year resolution competition to use Welsh in new situations, with the rest of her Welsh class in Aberystwyth. Judith intends to speak Welsh with her guinea pig!



Laith Gwaith Working Welsh

Cwmnïau sydd wedi arwyddo cytundebau partneriaeth Companies who have signed partnership agreements

HSBC
 NatWest Cymru
 Lloyds TSB
 Barclays
 Camelot
 Abbey National
 Nationwide
 Tesco
 Bws Caerdydd/Cardiff Bus
 ATS Cymru
 Ysbyty BUPA Caerdydd/
 Cardiff BUPA Hospital
 Siambr Fasnach Caerdydd/
 Cardiff Chamber of Commerce
 Grosvenor Waterside
 Mc Arthur Glen Cymru
 Stena Line
 Cwmni Coed Môn/
 Anglesey Timber Trading Co
 Alwminiwm Môn/Anglesey Aluminium
 Gwasanaethau Diogelwch Fraser/
 Fraser Security Services
 Cheltenham & Gloucester
 Hybu Bwyd Cymru/
 Welsh Food Promotions
 Nwy Prydain Cyfathrebu/
 British Gas Communications

Ar yr un pryd, rydym wedi bod yn annog sefydliadau ymhob sector i ddefnyddio cynllun Iaith Gwaith. Mae hwn yn ddull hawdd o alluogi cwsmeriaid i adnabod lle mae gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb ar gael.

Datblygu partneriaethau sector preifat

Mae rhestr lawn o'r cwmnïau sydd wedi arwyddo cytundeb partneriaeth gwirfoddol gyda'r Bwrdd gyferbyn.

Rydym yn cyfarfod y cwmnïau hyn yn flynyddol, i drafod cynnydd ac i gytuno amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae **HSBC** hefyd wedi cyhoeddi polisi iaith Gymraeg, sydd wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd, ac mae cynlluniau iaith ffurfiol wedi eu cymeradwyo gan **Dŵr Cymru, Nwy Prydain, Swalec** a **Manweb**. Cafodd y cynllun iaith cyntaf yn y sector trafniadaeth, un cwmni bysiau **First Cymru**, ei gymeradwyo yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal â'r cwmnïau hyn, sydd wedi ymrwmo'n ffurfiol i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg mewn cydweithrediad â'r Bwrdd, rydym yn parhau i drafod a chynghori nifer sylweddol o gwmnïau eraill. Mae'r ceisiadau yma am gymorth ar gynydd, a'n gallu i ymateb yn cael ei gyfyngu yn bennaf gan brinder adnoddau ac amser staff.

Marchnata mewn ieithoedd lleiafrifol

Gyda chymorth grant gan yr Undeb Ewropeaidd, bydd y Bwrdd yn cynnal gweithdy ar Farchnata Mewn Ieithoedd Lleiafrifol fis Mehefin 2001, gydag arbenigwyr ar farchnata a chynllunio ieithyddol o 10 gwlad Ewropeaidd yn mynychu. Nod y gweithdy fydd paratoi canllawiau arfer da i'w cyhoeddi ar y we.

Meanwhile, we have been encouraging organisations in all sectors to use the Iaith Gwaith (Working Welsh) scheme. This is a convenient way of allowing customers to see immediately where a Welsh language service is available over the counter.

Developing private sector partnerships

A complete list of those companies who have signed voluntary partnership agreements with the Board is shown opposite.


We meet with these companies annually, to discuss progress and to agree aims for the coming 12 months.

HSBC has published a formal Welsh language policy, which has received the Board's approval, and **Dŵr Cymru Welsh Water, British Gas, Swalec** and **Manweb** have full Welsh language schemes in operation. The first scheme in the transport sector, that of bus operator **First Cymru**, was approved during the year.

In addition to these companies, which have committed themselves formally to developing their use of Welsh in partnership with the Board, we continue to conduct discussions and offer advice to many other companies. These requests for help are continually increasing, although our ability to respond as we would like is limited by lack of resources and staff time.

Marketing in minority languages

With grant aid from the European Commission, the Board will be holding a workshop on Marketing in Minority Languages in June 2001, with experts on marketing and language planning from 10 European countries taking part. The workshop is intended to lead to the production of good practice guidelines for publication on the website.



Byd Gwaith

Cymraeg yn y Gweithle

Yn ystod 2000, cafodd canllawiau hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle eu datblygu, a'u cyflwyno yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli. Rydym yn ddiolchgar i HSBC a nifer o bartneriaid a sefydliadau eraill (Awdurdodau Unedol Powys a Chonwy, Prifysgol Cymru, Prifysgol Morgannwg a chwmni ACEN) am eu cymorth parod i ddatblygu'r canllawiau defnyddiol yma.

Llinell Gyswilt â'r Gymraeg

Mae'r llinell gymorth yma'n cynnig gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a chyfieithiadau byrion i ymholwyr ers 1998. Erbyn diwedd Mawrth 2001, roedd nifer y galwadau wedi codi i dros 8,500. Yn ogystal â delio â galwadau ar y llinell, mae'r tîm hefyd yn cynnig cymorth i brosiectau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig gwasanaeth cyfieithu bwydleni mewn partneriaeth â Gweithrediaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru, a datblygu rhestrau o dermau defnyddiol ar gyfer y safle gwe. Cafodd y gyntaf o'r rhestrau yma, *Termau Arwyddion Siopau*, ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2001.

Defnyddia dy Sgiliau Dwyieithog!

Rydym wedi dechrau datblygu deunyddiau i farchnata manteision sgiliau dwyieithog i bobl ifanc a'u rhieni. Mae'r deunyddiau'n seiliedig ar ofynion cyflogwyr mewn gwahanol sectorau a gwahanol siroedd am sgiliau dwyieithog ar gyfer swyddi penodol.

Gwobrau Dylunio Dwyieithog

Yn sgil llwyddiant y cynllun Gwobrau Busnes yn 1998 a 1999, fe lansiodd y Bwrdd y cynllun newydd cyffrous yma yn 2000, ar y cyd â Dylunio Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bwriad y gystadleuaeth newydd yw cydnabod yn ffurfiol am y tro cyntaf yr arbenigedd sydd wedi ei ddatblygu yn y maes dylunio dwyieithog yng Nghymru.

Cytunodd nifer o bartneriaid blaenllaw i noddi'r gwobrau newydd - Awdurdod Datblygu Cymru, Tesco, Nationwide, Camelot a Westdale Press, gyda LloydsTSB, Barclays, Hughes a

The Workplace

Welsh in the Workplace

During 2000, guidelines on Welsh language training in the workplace were developed and presented at the National Eisteddfod in Llanelli. We are grateful to HSBC and a number of other partners and organisations (Powys and Conwy Unitary Authorities, Glamorgan University and ACEN) for their help in developing these useful guidelines.

LinkLine to Welsh

This helpline has been providing callers with information on the Welsh language and short translations since 1998. By end-March 2001, the number of calls received had risen to over 8,500. In addition to dealing with calls to the helpline, the team help with a variety of projects. These include offering a free menu translation service, in partnership with the WDA's Food Directorate, and developing lists of useful terms for publishing on the website. The first of these lists, *A Glossary of Bilingual Signs for Shops*, was published in January 2001.



Use your Bilingual Skills!

We have started to develop a range of materials to market the advantages of bilingual skills to young people and their parents. The materials are based on the requirements of employers in a variety of sectors in different counties for bilingual skills in specific jobs.

Bilingual Design Awards

Following the success of the Business Awards Scheme in 1998 and 1999, the Board launched this exciting new scheme in 2000, in collaboration with Design Wales and the National Eisteddfod. The aim of the new competition is to recognise formally for the first time the expertise which has developed in Wales in the area of bilingual design.

A number of leading partners agreed to sponsor the new awards - the WDA, Tesco, Nationwide, Camelot and Westdale Press, with LloydsTSB, Barclays, Hughes and Wales CBI





Menter Môn, enillwyr y wobwr cyfryngau newydd, gyda Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol.

Menter Môn, winners of the new media award with Rhodri Morgan, First Minister of the National Assembly.

CBI Cymru yn noddi agweddau eraill o'r gystadleuaeth. Diolchwn iddyn nhw i gyd.

Bu'r gystadleuaeth yn llwyddiant ysgubol, gyda thros 550 o geisiadau'n dod i law. Cafwyd seremoni wobrwyo gofiadwy ym mhresenoldeb Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 3 Awst 2000. Cafodd y gwaith buddugol ei arddangos ym Mhafiliwn Celf a Chrefft yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli.

Lansiwyd cystadleuaeth 2001 ym mis Ionawr, gyda'r addewid o nawdd hael gan nifer o'r un partneriaid â'r llynedd, yn ogystal â rhai noddwyr newydd.

CySill

Mae'r pecyn gwirio sillafu hwn yn parhau i ennill ei blwyf mewn swyddfeydd, ysgolion a chartrefi ledled Cymru a thu hwnt. Bu trafodaethau rhwng y Bwrdd, Canolfan Bedwyr (a ddatblygodd y meddalwedd gwreiddiol) a chwmmi Microsoft. Cyhoeddwyd ym mis Mai 2000 y byddai'r fersiwn nesaf o'r pecyn meddalwedd Microsoft Office yn cynnwys gwirydd sillafu Cymraeg, wedi ei seilio ar CySill.

Er mwyn hwyluso'r broses gyfreithiol, penderfynodd y Bwrdd aseinio ei hawlfraint ar CySill i UWB Enterprises, cwmni masnachol Prifysgol Cymru Bangor. Y cwmni hwnnw fydd bellach yn gyfrifol am gydweithio gyda Microsoft ar ddatblygiadau technegol i'r meddalwedd.

sponsoring other aspects of the competition. We would like to thank all of them.

The competition was a resounding success, with over 550 applications received. A memorable award ceremony took place in the presence of Rhodri Morgan, First Minister of the National Assembly for Wales, at the National Botanic Garden of Wales on 3 August 2000. The winning work was also exhibited at the Arts and Crafts Pavilion at the National Eisteddfod in Llanelli.

The 2001 competition was launched in January, with the promise of generous sponsorship from a number of the same partners as last year, plus some new sponsors.

CySill

This spellchecking package continues to gain ground in offices, schools and homes throughout Wales and beyond. Discussions took place between the Board, Canolfan Bedwyr (who developed the original software) and Microsoft. It was announced in May 2000 that the next version of the Microsoft Office package would include Welsh language spellchecking, based on CySill. In order to facilitate the legal process, the Board decided to assign its copyright to CySill to UWB Enterprises, the commercial arm of the University of Wales Bangor. It is that company which will now be responsible for working with Microsoft on technical developments to the software.

Enillwyr y gwobrau cyntaf oedd:

Arwyddion: Hufenfa De Arfon, dylunwyr FBA

Cyfryngau Newydd: Nicomon, dylunwyr Menter Môn

Hyrwyddo: Coleg Menai, dylunwyr WO Jones

Hysbysebu: Amgueddfa Brycheiniog, dylunwyr mewnol

Pecynnu Bwyd a Diod: Hufenfa De Arfon, dylunwyr FBA

The winners of the first awards were:

Signage: South Caernarfon Creameries, designers FBA

New media: Nicomon, designers Menter Môn

Promotion: Coleg Menai, designers WO Jones

Advertising: Brecknock Museum, internal designers

Food and Drink Packaging: South Caernarfon Creameries, designers FBA

Hamdden a Gwyliau

Cymraeg i Oedolion

Roedd 23,634 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau CiO yn ystod y flwyddyn, a pharhaodd y Bwrdd i chwarae rhan flaenllaw yn y broses o ran cydlynu cenedlaethol.

Yn gynnar yn 2001 cytunodd Cynghorau Cyllido Cymru i gyllido prosiect fyddai'n datblygu system arholi ar gyfer pobl sydd eisïau cael eu harholi yn y Gymraeg. Y Bwrdd sy'n rheoli'r prosiect, a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn swyddfeydd Cydbwyllgor Addysg Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu strwythur lefelau iaith 5 rhes fydd yn ateb gofynion dysgwyr o bob lefel.

Iaith mewn busnesau arlwyo

Rydym wedi datblygu nifer o ymgyrchoedd marchnata i dargedu meysydd penodol o fewn y sector preifat, gan gynnwys cynhyrchwyr bwyd a diod a'r diwydiant arlwyo a thwristiaeth. Mae gennym bartneriaethau pwysig yn y maes, gyda Gweithrediaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

Yn dilyn cyhoeddiad y llyfryn *Ennill Tamaid*, fe drefnwyd dwy seminar hyfforddiant lwyddiannus, y naill ym Mhortmeirion a'r llall yn Aberystwyth. Cawsom gyfle i gyflwyno awgrymiadau a rhannu syniadau gyda chynrychiolwyr o dros 50 o westai, bwytai a gwasanaethau sy'n cefnogi'r sector.

Er mwyn cynnig ffordd o gydnabod arfer da yn y sector, ym mis Ionawr 2001 fe lansiodd y Bwrdd gynllun Bwydlen Ddwieithog y Mis, mewn cydweithrediad â Blas ar Gymru. Mae'r cyhoedd ledled Cymru yn cael eu gwahodd i enwebu bwytai sy'n cynnig bwydlen flasus a dwieithog. Mae'r bwyty buddugol bob mis yn derbyn tystysgrif, a chyhoedduswyd yn y wasg leol. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r gystadleuaeth, gyda'r tystysgrifau cyntaf yn mynd i:

Leisure, Festivals and Holidays

Welsh for Adults

A total of 23,634 learners were registered on WfA courses during the year, and the Board continued to play a leading role in co-ordinating the process at a national level.

Early in 2001, the Welsh Funding Councils agreed to fund a project which would develop the examination system for Welsh for Adults. The Board is managing this project, with the work being undertaken at the offices of the Welsh Joint Education Committee in Cardiff. The project includes developing a 5-tier language ability structure which will meet the needs of learners at all levels.

Language in hospitality businesses

We have developed a number of marketing initiatives to target specific groups within the private sector, including food and drink producers and the tourism and hospitality industry. We have important partnerships in this area with the WDA's Food Directorate and the Wales Tourist Board.

Following the publication of the booklet *Table Talk*, two successful training seminars for the hospitality sector were arranged, in Portmeirion and Aberystwyth. These gave us the opportunity to present suggestions and share ideas with representatives of over 50 hotels, restaurants and services which support the sector.

As a way of acknowledging good practice in this sector, the Board launched a Bilingual Menu of the Month scheme in January 2001, in collaboration with Taste of Wales. Members of the public throughout Wales are invited to nominate eateries which offer a tasty and bilingual menu. The winning eatery each month receives a certificate and publicity in the local press. The response has been extremely positive, with the first certificates going to:

Aelodau'r Bwrdd, Arun Midha, Sue Camper a Gwyn Bartley, sydd wedi dysgu Cymraeg fel oedolion, yn lansio deunyddiau marchnata newydd y Bwrdd.

Board members Arun Midha, Sue Camper and Gwyn Bartley, who have all learnt Welsh as adults, launching the Board's new marketing materials.



Staff Blas y Waun yn derbyn y dystysgrif gan June Jones, Blas ar Gymru.

Blas y Waun staff receiving their certificate from Taste of Wales's June Jones.

Aelodau o staff y Bwrdd yn barod i rasio (top) ac Angharad Mair yn cychwyn Ras 10k yr Eisteddfod yn Llanelli

Board staff members ready for the race (top) and Angharad Mair starting the Eisteddfod 10k Race in Llanelli.



Arddangosfa gwaith buddugol Gwobrau Dylunio Dwyieithog 2000 yn y Pafiliwn Celf a Chrefft

The exhibition of winning entries in the 2000 Bilingual Design Awards at the Eisteddfod's Arts and Crafts pavilion.

- yr Owain Glyndŵr, Caerdydd (Chwefror)
- Amser Da, Llanrwst (Mawrth)
- Blas y Waun, Antur Waunfawr (Ebrill).

Cyhoeddi yn y Gymraeg

Derbyniodd Cyngor Llyfrau Cymru grant o £623,704 yn ystod 2000-01 ar gyfer cyhoeddi llyfrau, cylchgronau a deunyddiau eraill. Yn dilyn arolwg cwmni Grant Thornton o grant y Bwrdd i'r Cyngor Llyfrau, derbyniodd y Bwrdd *Gyda'n Gilydd*, sef ymateb y diwydiant cyhoeddi i'r arolwg yma, yn ystod 2000-01. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu ffyrdd o ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn parhau i ystyried y ffyrdd gorau o ddatblygu'r maes pwysig yma, gan drafod gyda'r Cyngor Llyfrau, y Cynulliad ac eraill.

Eisteddfod Genedlaethol

Derbyniodd yr Eisteddfod Genedlaethol grant o £276,000 yn ystod y flwyddyn. Mae stonid arddangos y Bwrdd yn yr Eisteddfod bob blwyddyn yn rhoi cyfle i ni ddangos ein gwaith a'n cyhoeddiadau i gynulleidfa bwysig ac i glywed barn y cyhoedd yn uniongyrchol.

Yn Llanelli yn 2000, fel ym Mhen-y-bont yn 1998, fe noddodd y Bwrdd Ras 10k yr Eisteddfod. Braff oedd gweld lluo o gystadleuwyr, gan gynnwys nifer fawr o redwyr na fyddent fel arfer yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, gobeithiwn hefyd gryfhau'n presenoldeb ym Mhafiliwn y Dysgwyr, i rannu gwybodaeth ynglŷn â darpariaeth genedlaethol cyrsiau Cymraeg i Oedolion.

Gweithgareddau ieuentid

Gyda chymorth grant y Bwrdd, fe ddatblygwyd canllawiau ar ddarparu gwasanaeth ieuentid dwyieithog gan Gyngor Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol Cymru ar y cyd â sefydliadau ieuentid eraill. Cafodd y canllawiau eu lansio gan Jane Davidson AC, Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad, yng Nghaerdydd ar 14 Mawrth 2001.

- the Owain Glyndŵr, Cardiff (February)
- Amser Da, Llanrwst (March)
- Blas y Waun, Antur Waunfawr (April).

Publishing in Welsh

The Welsh Books Council received a grant of £623,704 during 2000-01 for publishing books, magazines and other materials. Following the review by Grant Thornton of the Board's grant to the Books Council, the Board has received *Gyda'n Gilydd* (Working Together), the publishing industry's response to this review, in 2000-01. This report suggests ways of developing the publishing industry in Wales over the next few years. We will continue to consider the best way of developing this important area, in discussion with the Books Council, the Assembly and other parties.

National Eisteddfod

The National Eisteddfod received a grant of £276,000 from the Board in the year under review. The Board's exhibition stand at the Eisteddfod each year gives us an opportunity to exhibit our work and publications to an important target audience and to hear the views of members of the public directly.

In Llanelli in 2000, as in Bridgend in 1998, the Board sponsored the Eisteddfod 10k Race. It was a pleasure to see so many competitors taking part in the event, including many runners who would not normally attend the National Eisteddfod.

For the 2001 Eisteddfod, we also hope to strengthen our presence in the Learners' Pavilion, to provide information about national provision of Welsh for Adults courses.

Youth activities

With grant aid from the Board, guidelines for the provision of bilingual youth services were produced by the Council of Welsh Voluntary Youth Services, in partnership with other organisations. The guidelines were launched by Jane Davidson AM, Minister in the Assembly for Education and Lifelong Learning, in Cardiff on 14 March 2001.

Blwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001

Mae'r Bwrdd wedi bod yn cydweithio gyda CILT (Centre for Information on Language Teaching and Research) ar brosiect Blwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001. Bu'r Bwrdd yn llwyddiannus yn ei gais am arian o'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer paratoi deunyddiau i farchnata'r Flwyddyn yng Nghymru. Lansiodd y Flwyddyn yn swyddogol yng Nghymru ar 13 Rhagfyr 2000 yng Nghaerdydd gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol.

Cafodd deunyddiau ar gyfer ysgolion a cholegau eu lansio gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, mewn lawns drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod tymor y gwanwyn.

2001 European Year of Languages

The Board has been collaborating with CILT (Centre for Information on Language Teaching and Research) on the 2001 Year of Languages project. The Board was awarded grant funding from the European Commission towards the production of materials to market the Year in Wales. The Year was officially launched in Wales on 13 December 2000 by Rhodri Morgan, First Minister of the National Assembly.

Materials for schools and colleges were launched by Jane Davidson, Assembly Minister for Education and Lifelong Learning, in a Welsh medium launch during the spring term.



Dwyieithrwydd a Pholisïau Cyhoeddus

Bu'r flwyddyn yn un brysur i'r Bwrdd o ran darparu cyngor ac ymateb i ddogfennau ymgynghorol gan gyrff eraill. Prif ffynhonnell y rhain - yn ôl y disgwyl - oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma enghreifftiau o'r meysydd a'r materion y bu'r Bwrdd yn cyfrannu iddyn nhw er mwyn ceisio sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw teg wrth lunio polisi cyhoeddus.

Dogfennau ymgynghorol:

- Gwellcymru.com
- Cymru Ar-lein
- Rhoi Cymunedau'n Gyntaf
- Darparu Lleodd mewn Ysgolion
- Cod Arfer Newydd Addysg Anghenion Arbennig
- Siarter NHS a Gofal Cymdeithasol Cymru
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion yng Nghymru: Cyfiawnder, Nerthu, Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - Busnes Pawb

Darparu cyngor ar faterion penodol:

- Adolygiad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad o'r Celfyddydau a Diwylliant
- Y Gymraeg mewn cyfle cyfartal (cyflwyniad i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal)
- Lleodd ysgolion (cyflwyniad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes)
- Hyfforddi athrawon yn ddwyieithog
- Cynlluniau a strategaethau ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar
- Papur ymchwil addysg o dan 5 oed y Cynulliad
- Strategaeth Genedlaethol ar Ieithoedd
- Cyngori Pwyllgor Llywio'r Cynulliad ar Flwyddyn Ieithoedd Ewrop
- Cydweithio ag adran gyfieithu'r Cynulliad ar derminoleg
- Cyngori WEFO ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yng nghydestun Amcan 1 a'r Cronfeydd Strwythurol

Bilingualism and Public Policies

In relation to providing advice and responding to consultation documents from other bodies, the year was a busy one for the Board. The main source of these - as might be expected - was the National Assembly of Wales. Here are examples of the areas and matters to which the Board contributed to try to ensure that the Welsh language receives proper attention when drawing up public policy.

Consultation documents:

- Betterwales.com
- Cymru Ar-lein
- Communities First
- Provision of School Places
- Special Educational Needs New Code of Practice
- NHS and Social Care Charter for Wales
- Adult Mental Health Services for Wales: Equity, Empowerment, Effectiveness, Efficiency
- Child and Adolescent Mental Health Service - Everybody's Business

Providing advice on specific matters:

- The Assembly Culture Committee's review of Arts and Culture
- The Welsh language in equal opportunities (presentation to the Equal Opportunities Committee)
- Schools places (presentation to the Education and Life-long Learning Committee)
- Training teachers bilingually
- Schemes and strategies for early years education
- The Assembly's research paper on under 5 education.
- National Languages Strategy
- Advising the Assembly's Steering Committee on the European Year of Languages
- Working with the Assembly's translation department on terminology
- Advising WEFO on the use of Welsh in the context of Objective 1 and the Structural Funds
- Advising the Assembly's Health

WELSH IN THE HEALTH SERVICE:

The Scope, Nature and Adequacy of Welsh Language Provision in the National Health Service in Wales



Y GYMRAEG YN Y GWASANAETH IECHYD:

Diwydder, Natur a Ddisgwyddeddau Darpariaeth Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru



- Cynghori Grŵp Iechyd y Cynulliad ar ymgorffori ystyriaethau ieithyddol mewn gofal iechyd, a sefydlu Tasglu ar y pwnc
- Cynghori ynglŷn â pholisi apwyntio cyhoeddus
- Cynghori Tasglu'r Cynulliad ar strategaeth tai i Gymru ynglŷn â materion iaith
- Cynghori'r Cynulliad ynglŷn â'r Gymraeg fel mater cynllunio, ac awdurdodau cynllunio ynglŷn â'u polisiau
- Cynghori ar lunio canllawiau a dangosyddion perfformiad ieithyddol ar gyfer 'Gwerth Gorau' a Safonau Cyfle Cyfartal
- Cynghori ynglŷn â chanllawiau asesu anghenion gofal ym maes plant, a materion ieithyddol yng ngwaith y Comisiynydd Plant. Yn ogystal â'r Cynulliad - ac yn ychwanegol i'r hwnnw a ddarparwyd yng nghyd-destun gweithredu cynlluniau iaith statudol - darparodd y Bwrdd gyngor, cymorth a chyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd i lu o gyrff eraill, gan gynnwys ACCAC, CBAC, CLILC, CGGC, y Swyddfa Gabinet, y Pwyllgor Materion Cymreig, POSTCOMM, OFGEM, y Comisiwn Archwilio, y Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl, a'r awdurdodau cynllunio. Ymysg y materion penodol a drafodwyd oedd:
 - Hybu Cymru Dramor
 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gyrfaoedd
 - Polisi asesu sgiliau allweddol
 - GNVQ cyfrwng Cymraeg
 - Sefydlu system arholi Cymraeg i Oedolion
 - y Gymraeg fel ystyriaeth gyflogi o fewn cyfle cyfartal
 - methodoleg i arolygwyr ac archwilwyr statudol ynglŷn â phrofi ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Group on integrating language considerations into health care, and establishing a Taskforce on the subject

- Advising on public appointments policy
- Advising the Assembly Taskforce on a housing strategy for Wales about language matters
- Advising the Assembly on the Welsh language as a planning issue and planning authorities on their policies
- Advising the Assembly on preparing guidance and linguistic performance indicators for 'Best Value' and Equality Standards
- Advising on assessing children's care needs, and language issues in the work of the Children's Commissioner.

As well as the Assembly - and in addition to that provided in the context of implementing statutory language schemes - the Board provided advice, assistance and direction on matters relating to the Welsh language and bilingualism to a large number of other bodies, including ACCAC, WJEC, WLGA, WCVA, the Cabinet Office, the Welsh Affairs Committee, POSTCOMM, OFGEM, the Audit Commission, the Mental Health Act Commission, and the planning authorities. Among the specific matters dealt with were:

- Promoting Wales Abroad
- A National Framework for Careers Education
- Key skills assessment policy
- Welsh-medium GNVQs
- Establishing a Welsh for Adults examination system
- the Welsh language as an employment consideration within equal opportunities
- a methodology for statutory inspectorates and auditors on testing the quality of Welsh-medium services.

Aelodaeth o grwpiau a phwyllgorau arbennig

- WAGSEN (pwyllgor anghenion addysg arbennig y Cynulliad)
- Pwyllgor Monitro Amcan 1 (fel ymgynghorydd statudol)
- Pwyllgor Addysg Blynyddoedd Cynnar y Cynulliad (corff ymgynghorol)

Membership of special groups and committees

- WAGSEN (the Assembly's special educational needs committee)
- The Objective 1 Monitoring Committee (as a statutory advisor)
- The Assembly's Early Years Education Committee (consultative body)

Datganiad Ariannol Cryno

am y flwyddyn i 31 Mawrth 2001

Datganiad Archwilydd
Cyffredinol Cymru i Gynulliad
Cenedlaethol Cymru

Yr wyf wedi ystyried y datganiad ariannol cryno ar dudalennau 23 i 25 sydd wedi ei baratoi yn y ffurf a'r sail a osodwyd yn nodyn 1 ar dudalen 25.

Cyfrifoldebau perthnasol y
Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r
Archwilydd

Cyfrifoldeb y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yw'r datganiad ariannol cryno. Fy nghyfrifoldeb i yw datgan i chwi fy marn ar ei baratoad ac ar ei gysondeb â'r datganiadau ariannol llawn a'u rhagymadrodd.

Sail fy marn

Gwnes fy ngwaith yn unol â'r Canllaw Archwilio "The auditor's statement on the summary financial statement" fel a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol llawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a'u rhagymadrodd, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 ac fe'i paratowyd yn gywir ar y sail a osodwyd yn nodyn 1 i'r Datganiad Ariannol Cryno.

John Bourn

Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Mehefin 2001

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Summary Financial Statement

for the year to 31 March 2001

Statement of the Auditor General
for Wales to the National
Assembly for Wales

I have examined the summary financial statement on pages 23 to 25 that has been prepared in the form and on the basis set out in note 1 on page 25.

Respective responsibilities of the Board, the Chief Executive and Auditor

The summary financial statement is the responsibility of the Board and the Chief Executive. My responsibility is to report to you my opinion on its preparation and consistency with the full financial statements and foreword.

Basis of opinion

I have conducted my audit of the statement in accordance with the Auditing Guideline "The auditor's statement on the summary financial statement" as adopted by the Auditing Practices Board.

Opinion

In my opinion the summary financial statement is consistent with the full financial statements and foreword of the Welsh Language Board for the year ended 31 March 2001 and has been properly prepared on the basis set out in note 1 to the Summary Financial Statement.

John Bourn

Auditor General for Wales
7 June 2001

Auditor General for Wales
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Cyfrif Incwm a Gwariant

am y flwyddyn i 31 Mawrth 2001

Income and Expenditure Account

for the year to 31 March 2001

	2000-2001		1999-2000		
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Incwm gros					Gross income
Cymorth Grant	6,320		5,924		Grant In Aid
Grant y Comisiwn Ewropeaidd	29		7		European Commission Grant
Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru	36		35		Further Education Funding Council for Wales
Rhyddhau Cronfa Grant y Llywodraeth	53		66		Release of Government Grant Reserve
Incwm gweithredol	24		28		Operating income
Incwm arall	36		11		Other income
		<u>6,498</u>		<u>6,071</u>	
Gwariant					Expenditure
Grantiau	4,685		4,417		Grants
Cyflogau	913		810		Salaries
Gweinyddu	337		362		Administration
Gwariant uniongyrchol	515		437		Direct expenditure
Dibrisiant	53		66		Depreciation
Llog Tybiedig ar Gyfalaf	9		12		Notional interest on capital
		<u>6,512</u>		<u>6,104</u>	
(Diffyg) ar weithgareddau gweithredol		(14)		(33)	(Deficit) on operating activities
Llog a dderbyniwyd		6		9	Interest receivable
Swm sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru		(6)		(9)	Amount payable to the National Assembly for Wales
Addasiad am log tybiedig ar gyfalaf		9		12	Adjustment for notional interest on capital
(Diffyg) a gadwyd am y flwyddyn		<u>(5)</u>		<u>(21)</u>	(Deficit) Retained for the year

Mantolen

ar 31 Mawrth 2001

Balance Sheet

at 31 March 2001

	2000-2001		1999-2000		
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Asedion Sefydlog					Fixed Assets
Asedion Cyffyrddadwy		96		129	Tangible Assets
Asedion Cyfredol					Current Assets
Stoc	6		4		Stock
Dyledwyr	115		130		Debtors
Arian yn y Banc ac Mewn Llaw	95		100		Cash at Bank and in Hand
	<u>216</u>		<u>234</u>		
Credydwyr					Creditors
Swm a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn	(181)		(195)		Amounts falling due within one year
Asedion Cyfredol Net		<u>35</u>		<u>39</u>	Net Current Assets
Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Phriddiannau		(3)		(2)	Provision for liabilities and charges
Cyfanswm Asedion Llai Rhwymedigaethau Cyfanswm		<u>128</u>		<u>166</u>	Total Assets Less Total Liabilities
Ariannwyd Gan:					Financed By:
Gyfalaf a Chronfeydd					Capital and Reserves
Grant Cronfa y Llywodraeth	96		129		Government Grant Reserve
Cronfa Gyffredinol	32		37		General Fund
Cronfeydd y Llywodraeth		<u>128</u>		<u>166</u>	Government Funds
		<u>128</u>		<u>166</u>	

Nodiadau i'r Datganiad Ariannol Cryno

am y flwyddyn i 31 Mawrth 2001

Notes to the Summary Financial Statement

for the year to 31 March 2001

1. Sail Cyfrifo

Lluniwyd y datganiad ariannol cryno yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol, wrth gyfeirio at y Ddeddf Gwmnïau 1985 a'r Cyfarwyddiadau Cwmnïau 1995 - O.S. 1995/2092, gyda chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'r datganiad ariannol cryno hwn yn cynnwys digon o wybodaeth ar gyfer deall canlyniadau'r Bwrdd am y cyfnod neu ei sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod. Yr oedd adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn i 31 Mawrth 2001 heb ei gymhwyso ac ni wnaethpwyd adroddiad. Os am ragor o wybodaeth dylid cysylltu â swyddfa'r Bwrdd am gopi rhad ac am ddim o'r adroddiad ariannol cyflawn.

2. Canlyniadau a chyfeddiant

Yr oedd cyfanswm y cyllid a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2001 yn £6,340,000. O'r cyfanswm hwn, yr oedd £20,000 ar gyfer gwariant cyfalaf. Y diffyg am y flwyddyn oedd £5,000.

1. Accounting Conventions

The summary financial statement has been prepared under the historical cost convention, with reference to The Companies Act 1985 and The Companies Regulations 1995 - SI 1995/2092, and complies with the directions given by the National Assembly of Wales. This summary financial statement does not contain sufficient information to allow for a full understanding of the results of the Board for the period or its state of affairs at the end of the period. The auditor's report on the full financial statements for the year ended 31 March 2001 was unqualified and no report was made. For further information, contact the Board's office for a free copy of the full financial statements.

2. Results and appropriations

Total finance provided by the National Assembly for Wales for the year 1 April 2000 to 31 March 2001 was £6,340,000. Of this amount, £20,000 was for capital expenditure. The deficit for the year was £5,000.

3. Costau Staff ac Aelodau

	Staff Staff 2000-2001 £'000	Aelodau Members 2000-2001 £'000	Cyfanswm Total 2000-2001 £'000
Cylog Gros	673	86	759
Yswiriant Gwladol	48	3	51
Cyfranddaliadau Pensiwn	93	10	103
	<u>814</u>	<u>99</u>	<u>913</u>
Niferoedd Cyfartalog	31	11	42

3. Staff and Members' Costs

	Staff Staff 1999-2000 £'000	Aelodau Members 1999-2000 £'000	Cyfanswm Total 1999-2000 £'000	
	602	75	677	Gross Salary
	45	4	49	National Insurance
	84	-	84	Pension Contributions
	<u>731</u>	<u>79</u>	<u>810</u>	
	27	9	36	Average Numbers

	2000-2001 £	1999-2000 £
Cylog y Prif Weithredwr	57	56
Bonws perfformiad y Prif Weithredwr	4	4
Cyfranddaliadau Pensiwn y Prif Weithredwr	11	10
	<u>72</u>	<u>70</u>
Cylog y Cadeirydd	25	24
Cyfranddaliadau Pensiwn y Cadeirydd	10	-
	<u>35</u>	<u>24</u>


Chief Executive's Salary
Chief Executive's Performance Bonus
Chief Executive's Pension Contributions

Chairman's Salary
Chairman's Pension Contributions

Yr oedd aelodau'r Bwrdd ar gyflog o £6,103 y flwyddyn yn 2000-2001 (£5,931 y flwyddyn yn 1999-2000).

Nid yw'r Bwrdd yn gweithredu cynllun ceir.

Swyddog Cyfrifo
Bwrdd yr Iaith Gymraeg 25 Mai 2001


John Walter Jones

The Board members' salary was £6,103 a year in 2000-2001 (£5,931 a year in 1999-2000).

The Board does not operate a car scheme.

Accounting Officer
Welsh Language Board 25 May 2001

Atodiad 1 Cefndir

Statudol

Cafodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei sefydlu fel corff statudol anadrannol ar 21 Rhagfyr 1993 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Bwrdd drwy grant o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Prif swyddogaeth y Bwrdd yn ôl y Ddeddf yw 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'. Ac wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, mae gan y Bwrdd dri phrif ddyletswydd:

- Cyngori cyrff sy'n paratoi cynlluniau iaith ar y dull o weithredu egwyddor ganolog y Ddeddf - trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- Cyngori'r sawl sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar faterion sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.
- Cyngori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Caiff gwaith y Bwrdd ei asesu'n flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â thargedau mesuradwy. Mae asesiad o berfformiad y Bwrdd yn erbyn targedau 2000-2001 yn Atodiad 3.

Yn ymarferol, mae gan y Bwrdd bum swyddogaeth graidd:

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Cyngori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith.
- Rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith.
- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg.

Y cyd-destun strategol

Mae'r ddogfen *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg* yn nodi'r pedair prif her ganlynol. Ym marn y Bwrdd, mae'n rhaid wynebu'r rhain er mwyn sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg:

- Cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.
- Newid arferion defnyddio'r iaith, ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir.
- Atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Annex 1 Background

Statutory

The Welsh Language Board was established on 21 December 1993, under the terms of the Welsh Language Act 1993. It is funded mainly by a grant from the National Assembly for Wales.

The Board's main role according to the Act is to 'promote and facilitate the use of the Welsh Language'. In fulfilling this role, the Board has three main duties:

- Advising organisations which are preparing language schemes on the mechanism of operating the central principle of the Act, that the Welsh and English languages should be treated on a basis of equality.
- Advising those who provide services to the public in Wales on issues relevant to the Welsh language
- Advising the National Assembly for Wales on issues relating to the Welsh language

The Board's work is assessed annually by the National Assembly for Wales against measurable targets. An assessment of the Board's performance against 2000-01 targets is shown in Annex 3.

In practice, the Board has five core functions:

- Promoting and facilitating the use of the Welsh language
- Advising on and influencing issues relating to the Welsh language
- Initiating and overseeing the process of preparing and operating language schemes
- Distributing grants for promoting and facilitating the use of the language
- Maintaining a strategic overview of Welsh language education.

The strategic context

The document *A Strategy for the Welsh Language* notes the following four main challenges. In the Board's opinion, these must be faced in order to secure a prosperous future for the Welsh language.

- Increasing the numbers of people able to speak the language.
- Providing opportunities to use the language.
- Changing the habits of language use, and encouraging people to take advantages of the opportunities provided.

Cyhoeddodd y Bwrdd y Strategaeth ym mis Rhagfyr 1996 ar ôl ymgynghoriad eang. Y ddogfen yma sy'n dal i lywio ein gwaith. Mae pob prosiect y mae'r Bwrdd yn ymwneud ag ef wedi ei gplysio ag un neu fwy o'r pedair prif her.

Yn ystod 1999-2000, cafodd y Strategaeth ei hadolygu'n fanwl, unwaith eto mewn ymgynghoriad â'n holl bartneriaid. Canlyniad y gwaith yma oedd cyhoeddi'r ddogfen *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gwledigaeth ar gyfer 2000 - 2005*. Mae'r ddogfen yn nodi'r angen am gynllunio ieithyddol bwriadus mewn pedwar gwahanol faes:

- Cynllunio caffaeliad - Cynhyrchu siaradwyr newydd drwy drosglwyddo iaith o fewn y teulu, drwy'r system addysg a thrwy ddysgu'r iaith i oedolion.
- Cynllunio defnyddio - Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith drwy gynlluniau iaith a darpariaeth arall. Cynnal ymgyrchoedd marchnata i annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd hynny.
- Cynllunio statws - Ehangu'r defnydd o'r iaith mewn meysydd cyfoes fel technoleg gwybodaeth, y rhynggrwyd, ac mewn sefydliadau blaenllaw fel y Cynulliad Cenedlaethol.
- Cynllunio corpws - Sicrhau fod termau safonol yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer meysydd newydd. Sicrhau fod ffurfiau iaith addas yn cael eu defnyddio gan sefydliadau cyhoeddus.

Aelodaeth y Bwrdd

Caiff aelodau'r Bwrdd eu penodi gan Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg. Mae disgwyl i'r Cadeirydd neilltuo dau ddiwrnod yr wythnos i faterion y Bwrdd, gyda'r aelodau'n neilltuo dau ddiwrnod y mis.

Cafodd aelodau'r Bwrdd dros gyfnod yr adroddiad blynyddol hwn eu penodi yn 2000. Cafodd y Cadeirydd ei benodi am y cyfnod 1 Mai 2000 tan 30 Ebrill 2003, a'r 10 aelod arall am y cyfnod 1 Ebrill 2000 tan 31 Mawrth 2003. Yr aelodau yw:

1. Rhodri Williams (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Golygyddol, Grŵp Agenda Multimedia
2. Yr Athro Colin Baker
Athro Addysg ym Mhrifysgol Cymru Bangor
3. Gwyn Bartley
Partner mewn cwmni o gyfreithwyr, Cadeirydd Cangen Gogledd Cymru o Gydffederasiwn Diwydiannau Prydain

- Reinforcing Welsh as a community language.

The Strategy was published by the Board in December 1996 following wide consultation. It continues to provide the overall steer for our work. Indeed, every project upon which the Board embarks is coupled to one or more of the four main challenges.

During 1999-2000, the Strategy was reviewed in detail, once again in consultation with all our partners. The result of this work was the publication of *The Welsh language: A Vision and Mission for 2000-2005*.

The document notes the need for purposeful language planning in four different areas.

- Acquisition planning - Producing new speakers of the language through the family, through the school system and by teaching the language to adults.
- Usage planning - Increasing the opportunities to use the language through language schemes and other provision. Running marketing campaigns to encourage people to take advantage of those opportunities.
- Status planning - Increasing the use of the language in contemporary domains like information technology, the internet and in leading organisations like the National Assembly
- Corpus planning - Ensuring that standardised terms continue to be developed for new areas of use. Also making sure that appropriate and user-friendly forms of the language are used by public sector bodies.

Membership of the Board

Board members are appointed by the National Assembly's Minister for Culture, Sport and the Welsh Language. The Chairman is expected to devote two days per week to Board matters, with members devoting two days per month.

The Board members in office during the period of this Annual Report were appointed in 2000. The Chairman was appointed for the term 1 May 2000 - 30 April 2003, and the other 10 members for the period 1 April 2000- 31 March 2003. The members are:


1. Rhodri Williams (Chairman)
Editorial Director, Agenda Multimedia Group
2. Professor Colin Baker
Professor of Education at the University of Wales Bangor
3. Gwyn Bartley
Partner in a firm of solicitors, Chairman of North Wales branch of the CBI



1.



2.



3.



4.



5.



6.



7.

4. **Sue Camper**
Asiant Banc Lloegr yng Nghymru, Aelod o Bwyllgor Gweithredol Sefydliad Materion Cymreig
5. **Bethan Guilfoyle**
Prifathrawes Ysgol Gyfun Treorci
6. **Gwawr Hughes**
Pennaeth Rhaglen MEDIA'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru
7. **Dr Medwin Hughes (Is-Gadeirydd)**
Prifathro Coleg y Drindod, Caerfyrddin
8. **Dr Arun Midha**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Adran Iechyd y Cyhoedd yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru
9. **Jeffrey Morgan**
Cadeirydd Economy Power Ltd
10. **Rhiannon Walters**
Athrawes Gymraeg all iaith i blant ysgolion cynradd, Dirprwy Gadeirydd Menter Bro Dinefwr
11. **Dr Colin Williams**
Athro Ymchwil mewn Sosio-ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd

